| Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr y Risg Cyfredol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| I.1 | 8 | 12 | ☛ | GS | Mae'r Is-grŵp Risg yn argymell ymgymryd ag ymarfer meincnodi marchnad ar gyfer Is-gronfeydd a Rheolwyr Buddsoddi'r PPC bob dwy flynedd. Mae'r PPC wedi ymgymryd â gwaith arwyddocaol yn ystod y chwarter er mwyn gwella mecanweithiau ymgysylltu PPC gyda Rheolwyr Buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys cael fersiwn derfynol o Atodlen Ymgysylltu Rheolwyr PPC a rhoi mecanweithiau hysbysu ar waith er mwyn adnabod pryd a pham mae ail-gydbwyso o fewn Is-gronfeydd PPC a reolir gan Russell wedi digwydd. |
| I.2 | 10 | 10 | ☝ | GS | Bydd Is-grŵp BC PPC yn cymryd cyfrifoldeb dros asesu sut mae Rheolwyr Is-gronfeydd yn goruchwylio, monitro a herio rheolwyr gwaelodol ar faterion BC, bydd hyn yn cael ei gwblhau yn Ch1 2021. Bydd y GS yn gyfrifol am sefydlu protocol i oruchwylio is-gronfeydd, yn enwedig is-gronfeydd nad ydynt yn cael eu rheoli gan Russell. |
| I.3 | 10 | 10 | ☝ | GS | Bydd y GS yn gweithio gyda'r Gweithredwr a'r Ymgynghorydd Goruchwylio i gytuno ar y weithdrefn er mwyn fformiwleiddio a chynnwys Adolygiad Ceidwad Blynyddol PPC. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yn Ch1 2021, gyda'r disgwyliad y bydd y Gweithredwr yn creu ei Adolygiad Ceidwad Blynyddol ar 31 Mawrth 2021. |
| I.4 | 4 | 8 | ☛ | GS/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae'r PPC yn credu mai gwrthrychedd ac amrediad yr argymhellion datrysiadau buddsoddi yw'r maes pryder mwyaf mewn perthynas â'r risg hwn. Yn benodol, mae angen i PPC sicrhau ei fod yn llwyr ymwybodol o'r cyfyngiadau, o safbwynt gwrthrychedd, o'r cynnig a gyflwynwyd gan y Darparwr Datrysiadau Rheolaeth Buddsoddi. Bydd PPC yn gofyn i'w Ymgynghorydd Arolygiaeth godeiddio a ffurfioli'r broses lle dylai PPC ystyried datrysiadau buddsoddi. |
| I.5 | 2 | 4 | ☛ | GS/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae PPC wedi adnabod dwy ffordd newydd o reoli'r risg hwn. Bydd PPC yn ymgymryd ag ymarferion meincnodi bob dwy flynedd - bydd hyn yn galluogi i PPC asesu'r gwerth am arian y byddant yn ei gael mewn perthynas â chymaryddion y farchnad. Ymhellach at hynny, mae PPC yn cydnabod bod ymarferion tryloywder cost yn amhrisiadwy i adnabod gwerth am arian, dyma'r ail ffordd y bydd PPC yn asesu gwerth am arian. Bydd PPC yn ystyried canfyddiadau ymarfer Tryloywder Cost SAB, yn dilyn hyn bydd GS yn ystyried pa gamau ychwanegol sydd eu hangen a ph'un a oes angen ymarferion tryloywder cost pellach. |
| I.6 | 8 | 8 | ☝ | GS | Bydd y GS yn gofyn i'r Gweithredwr greu adroddiad risg gwrth-barti dechreuol erbyn Ch3 2021. Bydd y GS, gyda chymorth gan eu Ymgynghorydd Arolygiaeth, yn adolygu'r adroddiad dechreuol ar y risg gwrth-barti gan y Gweithredwyr. |
| I.7 | 4 | 8 | ☛ | Y Gweithredwr/Rheolwr Buddsoddi/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Mae creu Holiadur Awdurdodau Cyfansoddol Blynyddol PPC wedi lliniaru'n sylweddol y risg nad yw anghenion a gofynion Awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu hadnabod a'u cyfrif amdanynt wrth greu a diwygio Is-gronfeydd PPC. Bydd creu'r ddwy ddogfen a ganlyn yn lliniaru'r risg hwn ymhellach:<br>• Creu Polisi Penodi, Adnewyddu ac Ail-gydbwyso Rheolwyr Is-gronfeydd<br>• Codeiddio'r modd y mae Rheolwr Buddsoddi'r Is-gronfa yn goruchwylio, monitro a herio Rheolwyr Buddsoddi gwaelodol. |
| I.8 | 4 | 8 | ☛ | GS/Ymgynghorydd Arolygiaeth | Ar hyn o bryd, mae Is-grŵp BC PPC yn fformiwleiddio Adroddiad Risg Hinsawdd ac ESG y PPC, y cynllun presennol yw cyflwyno'r adroddiad terfynol ar 31 Mawrth 2021 yn Ch2 2021. Yn ogystal, bydd yr Is-grŵp BC yn cwrdd â Rheolwyr Buddsoddi yr Is-gronfeydd PPC er mwyn deall, herio ac adolygu sut maent yn cyfrif am faterion BC yn fformwleiddiad is-gronfeydd PPC. |
| I.9 | 5 | 10 | ☛ | Ymgynghorydd Arolygiaeth | Diweddarwyd y Risg er mwyn adlewyrchu bod holiadur Ymgynghoriad Blynyddol wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r Is-gronfa Risg wedi penderfynu cadw'r sgôr risg presennol hyd nes eu bod wedi adolygu pa mor effeithiol y mae'r adborth o'r holiadur wedi hidlo drwodd i gynllun gwaith PPC ar gyfer 2021/2022. |
| G.12 | 10 | 15 | ☟ | GS | Cytunwyd y byddai'r GS yn gofyn i'r Gweithredwr am ddiweddariadau rheolaidd ynghylch y cais i gymryd drosodd eu Rhiant-gwmni. |